# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg held at on Dydd Mercher, 22ain Tachwedd, 2023 at 10.00 am**

| Councillors Present | Officers in Attendance |
| --- | --- |
| County Councillor Alistair Neill, (Chairman)<br>County Councillor Laura Wright, (Vice Chairman)<br><br>County Councillors: Alistair Neill, Peter Strong, Ann Webb, Laura Wright, Rachel Buckler, Catherine Fookes, Meirion Howells, Ben Callard and Paul Griffiths<br><br>Also in attendance County Councillors:<br>Ben Callard, Cabinet member for Resources and Paul Griffiths, Deputy Leader and Cabinet Member for Planning and Economic Development | Peter Davies, Prif Swyddog, Adnoddau<br>Frances O'Brien, Prif Swyddog, Cymunedau a Lle<br>Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc<br>Jane Rodgers, Pennaeth Gwasanaethau Plant<br>Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi a Llywodraethiant<br>Richard Jones, Rheolwr Perfformiad a Dirnadaeth Data<br>Jonathan Davies, Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog<br>Hannah Carter, Dadansoddwr Perfformiad<br>Dave Loder, Rheolwr Cyllid<br>Daniel Fordham, Rheolwr Prosiect<br>Craig O'Connor, Pennaeth Cynllunio |

**APOLOGIES:** County Councillors Jill Bond and Paul Pavia

1. **Datganiadau o Fuddiant**

   Datganodd y Cynghorydd Fookes fuddiant heb fod yn rhagfarnol fel Llywodraethwr Ysgol Gyfun Trefynwy.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

   Dim

3. **Monitro Cyllideb Mis 5**

   Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Ben Callard a Peter Davies ac atebwyd cwestiynau aelodau gyda Jonathan Davies, Frances O'Brien, Paul Griffiths, Jane Rodgers a Nikki Wellington.

   **Cwestiynau Allweddol gan Aelodau:**

   - Sut y caiff cyfrifoldebau eu rhannu rhwng y ddau Aelod Cabinet dros Adnoddau?
   - Mae'r pwysau yn cynyddu ar ddarparu llety ar gyfer y digartref ac ymddengys fod y costau yn ymatebol – a oes cynlluniau i liniaru hyn a bod yn fwy rhagweithiol? – **GWEITHREDU (rhoi data ar dueddiadau a gwybodaeth i aelodau ar safleoedd Gwely a Brecwast a Digartrefedd)**
   - Mae diffygion mewn Gofal Cymdeithasol ac Iechyd oherwydd galw cymhleth a phlant gyda darpariaeth ADY – pa oblygiadau sydd yna ar gyfer

defnyddwyr y gwasanaethau hyn a pha gynlluniau sydd yn eu lle i reoli'r ffactorau hyn?

- Mae'r adroddiad yn sôn am darged o £550k o arbedion yn ymwneud â gofal iechyd parhaus (t22); rydym wedi cyflawni £141k ym Mis 5, felly'n brin o'r targed. A oes anghydbwysedd grym rhwng Cyngor Sir Fynwy a'r bwrdd iechyd? A ydym yn gwneud digon i baratoi ein staff i herio'r bwrdd iechyd?
- A fu'r gostyngiadau yn oriau angen gofal nas diwallwyd oherwydd fod gennym mwy o ofalwyr ac oriau wedi eu darparu neu a yw pobl a fyddai wedi bod yn gymwys am becynnau gofal yn y gorffennol wedi eu gwrthod? Os felly, a ydym yn methu gwasanaethu'r bobl fwyaf agored i newid.
- Rydym yn clywed straeon fod pecynnau gofal llai yn mynd i baneli llawn, a bod gweithwyr cymdeithasol yn cael eu clymu am oriau mewn cyfarfodydd panel yn hytrach na bod ar y rheng flaen – a yw hynny yn wir?
- A yw'r gorwariant o £111k yn gysylltiedig â pharc busnes Castle Gate yn golled wirioneddol?
- Eitem 3.12, pam fu oedi wrth sicrhau adnoddau i'r tîm i gyrraedd y gostyngiad yn y targedau ynni a phryd fedrwn ni ddisgwyl gweld y gostyngiad?
- A yw'r diffyg mewn gostyngiad milltiroedd ac oedi wrth ymestyn y cynllun ceir cronfa yn cael ei drin yn awr?
- Noder yng nghyswllt digartrefedd (t27), mae'n bwysig i bobl sy'n cael adferiad o ddibyniaeth i aros yn eu rhwydweithiau cefnogaeth
- A fedrwn gael ein sicrhau na fydd gostyngiad yn y Grant Cymorth Tai ac na effeithir ar yr elusennau sy'n cael budd ohono, tebyg i Mind Sir Fynwy?
- Beth yw'r arwydd diweddaraf ar debygrwydd dyfarnu grant o £1m nad yw yn y gyllideb?
- Sut ydym yn dilyn lan ar gyllid gan Lywodraeth Cymru nad yw'n cael ei wireddu e.e. ar gyfer prydau ysgol am ddim i ysgolion cynradd?
- Yng nghyswllt y Grant Cymorth Tai, a fyddai'n adeiladol anfon llythyr at gyfarwyddwr Llywodraeth Cymru yn tanlinellu pwysigrwydd gwybod beth yw dyraniad cyllid Cyngor Sir Fynwy cyn gynted ag sy'n bosibl? – **GWEITHREDU**
- Mae'r rhagamcan o orwariant am wasanaethau yn £6.2m, caiff y gwaith adfer i ostwng hynny i bwysau o £124k ei ateb gan eitemau heb fod yn gysylltiedig â gwasanaeth, rhai ohonynt yn rhai 'unwaith yn unig' – a fyddem yn disgwyl i ganlyniad ddod ymlaen y gallwn edrych ato cyn y trafodaethau ar gyllideb y flwyddyn nesaf?
- T8 o'r adroddiad clawr, arlwyo ysgolion, dynodir nad yw £2.90 fesul pryd bwyd yn ddigonol – beth yw'r union gost y byddem yn gofyn iddo gael ei gyllido'n ôl-weithredol gan Lywodraeth Cymru?
- Mae balansau ysgolion 86% yn is yn ystod y flwyddyn – a yw hynny'n agoredrwydd sylweddol iawn ar gyfer y flwyddyn nesaf?
- Dywedodd y Cadeirydd, os gall aelodau pwyllgor gyfrannu mewn unrhyw ffordd e.e. os gallai cydweithwyr o Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan ymuno â ni am gyfarfod i ddeall sut maent yn gweithredu gofal iechyd parhaus a chynyddu dealltwriaeth, byddent yn hapus i wneud hynny.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolch i'r Aelod Cabinet a swyddogion. Gofynnwyd i'r pwyllgor graffu ar ragamcan y gyllideb refeniw ar gyfer 23-24 hyd at Fis 5, i asesu os oes monitro effeithlon ar y gyllideb ac i ba raddau y caiff cyllidebau eu gwario o fewn y gyllideb a gytunwyd a'r

fframwaith polisi, yn cynnwys rhesymoldeb yr esboniad dros amrywiadau, ac i ystyried cyflawni'r cynnydd i sicrhau targedau arbedion cyllideb. Rydym wedi gwneud hynny yn drwyadl a felly caiff yr adroddiad ei dderbyn.

4. **Y Gofrestr Risgiau Strategol**

Cyflwynodd Richard Jones yr adroddiad ac ateb cwestiynau aelodau gyda Peter Davies a Jane Rodgers.

**Cwestiynau Allweddol gan Aelodau:**

- A fedrwch egluro'r categorïau risg a beth maent yn ei olygu?
- Pam y cafodd y risg newydd o 'her cyfreithiol' ei ychwanegu?
- Risg 12: pryd mae'r Gweithgor Tlodi nesaf a phryd oedd y diwethaf? Sut ydym yn symud ymlaen ar y Cynllun Gweithredu Tlodi? – **GWEITHREDU (gwirio pryd fydd cyfarfod nesaf y gweithgor ac anfon ymateb ysgrifenedig am y gweithgor tlodi i aelodau)**
- Byddai'n ddefnyddiol pe gallai cofrestru risg gael graddiad Coch, Oren a Gwyrdd. A fedrir rhoi risgiau uchel mewn coch? Byddai'n dda safoni graddiadau Coch, Oren a Gwyrdd ar draws y Cyngor a hefyd gyflwyno saethau yn dangos y trywydd – **GWEITHREDU (ar gyfer swyddogion i fynd â nhw gyda nhw i'w hystyried)**
- Risg 8: a fedrwch esbonio yn fwy manwl sut y gall lefel risg o 16 gael ei liniaru lawr i 12?
- Risg 2: cynaliadwyedd gwasanaethau - sut fyddem ni yn lliniaru lawr o 16 i 12 lle mae sôn mewn rhan arall o'r gyllideb am ddiffyg o £14.4m?
- A ydym wedi rhoi digon o hyfforddiant i'n holl staff yn rheolaidd ac i gwnselwyr i ostwng lefel risg o amgylch seibr ymosodiadau? – **GWEITHREDU (ymateb ysgrifenedig i aelodau am risg seibr ymosodiad a hyfforddiant pellach).**

**Crynodeb y Cadeirydd:**
Diolch i'r swyddogion. Os yw aelodau yn meddwl am risgiau yn y dyfodol y dylid eu cynnwys, cânt eu hannog i gysylltu â'r Cadeirydd neu swyddogion. Caiff yr adroddiad ei dderbyn.

5. **Adroddiad Monitro Blynyddol yr LDP**

Cyflwynodd Craig O' Connor yr adroddiad ac ateb cwestiynau aelodau gyda'r Aelod Cabinet Paul Griffiths a Daniel Fordham.

**Cwestiynau Allweddol gan Aelodau:**

- T3-4: Ai cynyddu lefel y cartrefi fforddiadwy a ddarperir o 22% o'r cyfanswm a gyflawnwyd i 50% yw'n cynllun ar gyfer y dyfodol?
- Oni fyddai'r gwelliannau ffosffadau yn hollol groes i'r bwriad i symud ymlaen gyda chyflenwi nifer sylweddol o dai yn y Cynllun Datblygu Lleol fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd? Ac ydyn ni'n gwybod pa lefel gwelliannau a fyddent?

- A ydym wedi ystyried beth sydd gan y siroedd cyfagos yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol yng nghyswllt lefel cartrefi fforddiadwy?
- T94, cyfeiriad at yr A48 yn hytrach na'r M48 – ai camgymeriad teipio yw hynny? **– GWEITHREDU (swyddogion i gywiro yn yr adroddiad)**
- Mae pwysau enfawr ar y B4245, a bydd dau safle yn cynyddu hynny – pa gynnydd sydd yn y trafodaethau ar y ddolen i lawr i Gyffordd Twnnel Hafren a'r ddolen lan i'r M48?
- Gan fod hwn yn gynllun 10 mlynedd o 2011-21, pam nad oes llinell wedi ei dynnu dan hyn fel adroddiad terfynol?
- 3.8, beth sy'n cael ei wneud i geisio atal y gyfradd uchel o siopau gwag yn Nhrefynwy? A yw'r ffigur yn cynnwys banciau?
- Mae 3.18 yn sôn am awdit o safleoedd gwag ar y stryd fawr yn Nhrefynwy – a gaiff aelodau weld yr adroddiad hwnnw? **– GWEITHREDU (swyddogion i rannu gydag aelodau)**
- Nid oes gwaith pellach ar Orsaf Coetsis Trefynwy ond byddai'n fuddiol iawn pe gallai National Express stopio yn y dref? Pam nad oes mwy o waith ar hynny?
- Cafodd safle o'r enw Wheatfield ar gyfer pobl digartref ei adael yn ystod y pandemig – beth sy'n digwydd gyda hynny?
- I egluro, oni fedrid ailadeiladu Wheatfield ar y safle presennol?

**Crynodeb i'r Cadeirydd:**
Diolch i'r swyddogion a'r Aelod Cabinet. Cafodd yr adroddiad ei dderbyn.

6. **Fformiwla Ariannu Ysgolion**

Cyflwynodd Nicola Wellington yr adroddiad ac ateb cwestiynau aelodau.
**Cwestiynau Allweddol gan Aelodau:**

- Dymunai'r Cynghorydd Fookes ddiolch i swyddogion am wrando ar lywodraethwyr Ysgol Gyfun Trefynwy parthed pryderon am y fformiwla cyllid, gyda datrysiad nawr yn ei le ar gyfer 25/26
- Mae'r adroddiad yn cynnwys fformiwla yn cyfeirio at gynnal a chadw yr adeilad newydd – a oedd hynny yn ei le cyn rhoi ystyriaeth i'r profiad gydag ysgolion Cil-y-coed a Threfynwy?
- A oes gennym ffigur rhesymol faint o bobl gafodd fynediad i'r ymgynghoriad?

**Crynodeb y Cadeirydd:**
Diolch i swyddogion. Cafodd yr adroddiad ei dderbyn.

7. **Blaenraglen Waith a Rhestr Camau Gweithredu'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg**

Ychwanegwyd eitemau posibl ar bresenoldeb mewn ysgoliion a pherfformiad mewn arholiadau at 20 Chwefror (a thybio y caiff data ei gyhoeddi'n brydlon). Bydd yr eitemau o gyfarfod 29 Tachwedd a gafodd ei ganslo yn symud i 15 Ionawr, a gaiff ei drefnu. Bydd cyfarfod 30 Ionawr ar gyfer craffu'r gyllideb.
Cynigiodd y Cynghorydd Fookes ychwanegu'r Cynllun Gweithredu Tlodi at agenda 26 Mawrth; cytunodd y pwyllgor i hynny - **GWEITHREDU**

**8. Cynllun Gwaith y Cyngor a'r Cabinet**

**9. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 24ain o Hydref 2023**

Cadarnhawyd y cofnodion..

**10. Cyfarfod Nesaf: 29ain o Dachwedd (Cyfarfod Arbennig) a 30ain o Ionawr 2023**

Cafodd cyfarfod 29 Tachwedd ei ganslo – aiff yr eitem i gyfarfod 15 Ionawr.

The meeting ended at **12.39 pm**